# Mynd i'r afael â hanfodion iechyd planhigion

## TAFLEN GWYBODAETH



Mentrwn ddyfalu bod sicrhau ansawdd y planhigion rydych chi'n eu cynhyrchu yn eithaf uchel ar eich rhestr blaenoriaethau. Ond mae ansawdd yn golygu rheoli iechyd planhigion, ac mae p'un a ydynt wedi'u heintio â chlefydau neu a oes plâu yn amharu arnynt yn effeithio'n fawr iawn ar hynny. Yma, rydym yn archwilio hanfodion iechyd planhigion ac yn rhoi gwybodaeth, awgrymiadau ac adnoddau i chi er mwyn sicrhau bod eich planhigion yn cadw'n iach.

**Diogelu planhigion, diogelu bywydau ...**

Mae planhigion yn gyfrifol am 80% o'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta ac yn cynhyrchu 98% o'r ocsigen rydyn ni'n ei anadlu. Mae'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn amcangyfrif bod angen i gynhyrchiant amaethyddol gynyddu tua 60% erbyn 2050 er mwyn bwydo poblogaeth fwy. Fodd bynnag, mae planhigion y byd dan fygythiad cyson, ac mae'r amcangyfrifon yn nodi bod hyd at 40% o gnydau bwyd yn cael eu dinistrio bob blwyddyn gan blâu a chlefydau. Gall hyn arwain at brinder bwyd, ac mae'n cael effaith negyddol ar y diwydiant amaeth yn sgil colli cynnyrch ac incwm.

Ond beth sy'n cyfrannu at fygwth iechyd planhigion? Mae bioddiogelwch isel, hylendid gwael planhigion a rheolaeth annigonol ar rywogaethau goresgynnol yn caniatáu lledaenu plâu a chlefydau ar raddfa fawr. Ar yr un pryd, mae masnach ryngwladol a theithio wedi treblu dros y degawd diwethaf, sy'n gallu lledaenu plâu a chlefydau yn gyflym o gwmpas y byd. Mae hyn yn arwain at golli ecosystemau, colledion economaidd sylweddol a methu tyfu cnydau penodol.

Mae epidemigau (a elwir hefyd yn epiffytotigau mewn planhigion) yn digwydd pan mae lefel y clefyd yn cynyddu'n sydyn ac yn ddigon sylweddol i ddinistrio nifer fawr o blanhigion. Mae epidemigau yn digwydd oherwydd unffurfiaeth enetig mewn cnydau ungnwd neu pan fydd nifer fawr o blanhigion brodorol neu blanhigion amaethyddol yn dueddol o gael y clefyd dan sylw (pathogen estron neu straen newydd o'r pathogen gan amlaf).

Yn aml, mae'n amhosib dileu plâu a chlefydau planhigion ar ôl iddynt ymsefydlu, ac mae eu rheoli yn broses ddrud sy'n cymryd llawer o amser. Mae diogelu planhigion rhag plâu a

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
FARMING connect cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

chlefydau yn llawer mwy cost-effeithiol na delio ag argyfyngau llawn, felly mae atal yn hanfodol er mwyn osgoi effaith ddinistriol plâu a chlefydau ar amaethyddiaeth, bywoliaeth a diogelwch bwyd.

Diogelu'r amgylchedd ddylai fod yn ffocws allweddol arall. Mae'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn annog ffyrdd ecogyfeillgar o ddelio â phlâu, fel rheoli plâu yn integredig. Mae lleihau'r defnydd o gemegau gwenwynig wrth ddelio â phlâu yn diogelu'r amgylchedd yn ogystal â pheillwyr, gelynion naturiol plâu, organebau buddiol a'r bobl a'r anifeiliaid sy'n dibynnu ar blanhigion.

### Sut mae hyn yn effeithio arnaf i?

Er mwyn gwerthu planhigion o ansawdd uchel, mae angen i chi gynhyrchu planhigion iach. Mae plâu a chlefydau planhigion yn arwain at golledion o ran cynhyrchu a gwerthu.

Fel tyfwr, mae angen i chi allu adnabod y plâu a'r pathogenau a allai effeithio ar eich cnwd. Yna mae angen i chi ddeall sut i drin y plâu a'r pathogenau i sicrhau eich bod yn cael cnwd da ar ddiwedd eich cylch tyfu, a lleihau'r risg o golli cnydau.

*"Er mwyn diogelu iechyd planhigion mae ystod o fesurau yn cael eu defnyddio i reoli ac atal plâu, chwyn ac organebau sy'n achosi clefydau rhag ymledu i ardaloedd newydd, yn enwedig trwy ryngweithio dynol fel masnach ryngwladol."*

### Gadewch i ni edrych ar rai diffiniadau:

- Pla – anifail sy'n achosi difrod i blanhigion e.e. pryfed, cnofilod, nematodau.
- Pathogen – organeb sy'n achosi afiechyd e.e. ffyngau, bacteria, firysau.
- Clefyd – y casgliad o symptomau sy'n cael eu hachosi gan bathogen.
- Anhwylder – problem i blanhigion sy'n cael ei hachosi gan broblem ffisiolegol e.e. rhew.

Oeddech chi'n gwybod bod Defra wedi sefydlu cofrestr risgiau iechyd planhigion? Heddiw, mae'r gofrestr hon yn rhestru dros 1,000 o wahanol blâu a phathogenau sy'n fygythiad posibl i gnydau neu i amgylchedd naturiol y DU. Ydych chi'n gwybod pa blâu a phathogenau sy'n peri'r risg fwyaf i'ch cnydau? Fyddech chi'n gallu eu hadnabod?

Mae Porth Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU yn rhoi gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, gan gynnwys asesiadau risg, dolenni i wefannau eraill o ddiddordeb a gwybodaeth am wasanaethau a dulliau rheoli iechyd planhigion sy'n cael eu darparu gan y llywodraeth.

### O ble mae clefydau a phlâu yn dod?

Oherwydd bod y tymheredd yn codi, mae mwy o blâu planhigion yn ymddangos yn gynharach yn y flwyddyn ac mewn lleoedd nad ydynt wedi'u gweld erioed o'r blaen. Mae newid hinsawdd hefyd yn bygwth lleihau nid yn unig nifer y cnydau, gan ostwng cynhyrchiant, ond hefyd eu gwerth maethol. Ni ddylem anghofio am y pryfed buddiol, sy'n hanfodol er lles iechyd planhigion - er mwyn peillio, rheoli plâu, sicrhau iechyd y pridd ac ailgylchu maethynnau – fodd bynnag, mae niferoedd pryfed wedi gostwng 80% yn ystod y 25-30 mlynedd diwethaf.

**Dyma rai enghreifftiau o'r hyn sy'n gallu achosi i blâu a chlefydau ymledu:**

- Gwynt e.e. clefyd coed ynn
- Gwasgariad trwy law a dafnau glaw e.e. clwy tatws
- Dŵr pridd a dyfrhau e.e. clefyd tampio Pythium
- Stoc wedi’i heintio
- Anifeiliaid sy’n trosglwyddo clefydau e.e. llyslau sy’n trosglwyddo firysau
- Mewnforion rhyngwladol e.e. paledau pren, ffrwythau

## Beth gellir ei wneud i leihau'r effaith ar iechyd planhigion?

Mae gan bawb ran i'w chwarae er mwyn lleihau effaith plâu a chlefydau. Mae'n bwysig addysgu'r cyhoedd am y risgiau cysylltiedig â symud planhigion a chynnyrch planhigion – a allai gynnwys plâu a chlefydau – ar draws ffiniau.  Dylai defnyddwyr hefyd fod yn ofalus wrth brynu cynnyrch planhigion ar-lein a thrwy wasanaethau post sy’n gallu osgoi rheolaethau ffytoiechydol.

Gall tyfwyr gymryd camau i ddiogelu eu cnydau rhag plâu a chlefydau trwy ddeall y risgiau i'w cnydau a'u monitro'n rheolaidd. Gall plâu gael eu hatal rhag ymledu drwy ddefnyddio hadau ac eginblanhigion heb blâu sydd wedi’u hardystio yn unig, a thrwy adrodd yn rheolaidd am achosion o blâu ar ddaliadau. Gellir rhoi arferion rheoli plâu eco-gyfeillgar ar waith, gan gynnwys y rheini sy'n seiliedig ar ddulliau biolegol nad ydynt yn lladd peillwyr, na phryfed ac organebau buddiol.

Gall masnach gynyddu'r risg bod plâu a chlefydau planhigion yn ymledu, felly er mwyn gwneud masnach yn ddiogel, mae'n bwysig gweithredu’r safonau a’r arferion rhyngwladol o ran iechyd planhigion. Mae hyn yn lleihau effaith negyddol plâu a phaladdwyr ar iechyd pobl, yr economi a'r amgylchedd. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n haws rheoli ac atal plâu a chlefydau rhag ymledu heb sefydlu rhwystrau diangen i fasnach.

## Beth sy'n lleihau'r tebygolrwydd o epidemigau?

gwydnwch yn erbyn clefydau planhigion a phlâu

lleihau’r achosion

lleihau graddfa'r effaith

Bioddiogelwch
(monitro,
mewnforio)

planhigion
mathau
ag imiwnedd
sy’n rheoleiddio
gwrthsefyll

rheoli
gyda

hwsmonaeth
a glanweithdra
bioladdwyr
gallu

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
GARDDWRIAETH HORTICULTURE

## Sut mae deddfwriaeth yn chwarae rhan?

Os ydych chi'n mewnforio neu'n allforio eich cynnyrch yna bydd angen i chi ddeall y ddeddfwriaeth ar iechyd planhigion, sy'n rheoli mewnforio a symud rhai planhigion, hadau a deunydd organig fel pridd, ffrwythau, tatws, llysiau, blodau wedi'u torri, dail a grawn.

I wneud pethau ychydig yn fwy cymhleth, mae mesurau rheoli yn amrywio yn ôl y rhywogaeth, ond gallent gynnwys yr angen am ddosbarthiad nwyddau, tystysgrifau ffytoiechydol, pasbort planhigion a/neu archwiliad. Mae'n bwysig eich bod chi, fel tyfwr, yn deall y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i chi a'ch bod yn ymwybodol o bethau fel pasbortau planhigion a sut mae cael pasbortau planhigion a thystysgrifau ffytoiechydol.

Mae Iechyd Planhigion yn fater wedi'i ddatganoli i Gymru o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 (fel y'i diwygiwyd). Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau (PHSI) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae Pasbortau Planhigion yn sicrhau y gellir olrhain planhigion a chynnyrch planhigion drwy gydol y gadwyn gyflenwi, sy'n hanfodol er mwyn cynnal bioddiogelwch. Mae Pasbort Planhigion yn label swyddogol ar gyfer symud planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig yn yr UE. Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion o ran iechyd planhigion ar gyfer y cynnyrch planhigion neu blanhigion perthnasol, er enghraifft, nad yw'n cynnwys plâu a chlefydau penodol.

Ond beth yw'r gwahaniaeth rhwng Pasbort Planhigion a Thystysgrif Ffytoiechydol? Mae tystysgrif ffytoiechydol yn dystysgrif fyd-eang sy'n cael ei defnyddio at ddibenion bioddiogelwch ac mae'n angenrheidiol ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig sy'n cael eu mewnforio i'r DU o drydydd gwledydd (nad ydynt yn yr UE) neu sy'n cael eu hallforio o'r DU i drydydd gwledydd. Caiff Tystysgrifau Ffytoiechydol eu cyflwyno gan yr APHA.

Mae Pasbort Planhigion ar gyfer symudiadau mewnol o fewn yr UE yn unig ac maent yn labeli penodol i'r UE. Maent yn cael eu cyflwyno gan weithredwyr awdurdodedig (rhoddir awdurdodiad gan yr awdurdod cymwys). Nid yw'r rhestr o blanhigion a chynnyrch planhigion y mae angen Tystysgrif Ffytoiechydol ar eu cyfer yr un fath â'r rhestr y mae angen Pasbort Planhigion ar eu cyfer.

## Adnoddau

### Porth Iechyd Planhigion

I gael rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn, ewch i'r Porth Iechyd Planhigion, a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yno: https://planthealthportal.defra.gov.uk/

Mae'r Porth Iechyd Planhigion yn rhoi gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion, gan gynnwys asesiadau o risg, dolenni i wefannau eraill o ddiddordeb a gwybodaeth am reoli a gwasanaethau iechyd planhigion sy'n cael eu darparu gan y llywodraeth.

### Cofrestr Risg Iechyd Planhigion y DU

Sefydlwyd a chynhelir Cofrestr Risg Iechyd Planhigion y DU gan Defra. Mae'n offeryn i'r llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid flaenoriaethu gweithredu yn erbyn plâu a chlefydau sy'n bygwth ein cnydau, ein coed, ein gerddi a chefn gwlad.

### Gwefannau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar gyngor y DU, mae gan wahanol wledydd

wahanol glefydau, gwahanol rywogaethau lletyol, a gwahanol driniaethau a ganiateir.

Clefydau coed https://www.gov.uk/guidance/find-a-specific-tree-pest-or-disease Planhigion addurnol https://www.rhs.org.uk/advice/plant-problems/diseases-disorders

AHDB Horticulture (Wedi dod i ben ond mae gwybodaeth yn cael ei harchifo ac ar gael i'w defnyddio)

**Ffynonellau y gellir tanysgrifio iddynt:**
The Horticultural Trade Association (HTA)
Horticulture Week

**Llyfrau:**

RHS Pests and Diseases, Pippa Greenwood ac Andrew Halstead
Collins. Pests, diseases and disorders of garden plants, 4ydd arg., Stefan Buczacki a Keith Harris

**Gwasanaethau ymgynghori:**

ADAS: Crop disease management

ADAS: Pest management

FERA Plant Clinic

Forest Research Tree Health Diagnostic and Advisory Service

**Beth ydyn ni wedi’i ddysgu?**

- Mae amcangyfrifon yn nodi bod hyd at 40% o gnydau bwyd yn cael eu dinistrio bob blwyddyn gan blâu ac afiechydon. Mae bioddiogelwch gwael, hylendid planhigion gwael a methu rheoli rhywogaethau goresgynnol yn caniatáu i blâu a chlefydau ymledu ar raddfa fawr.
- Mae defnyddio cyn lleied o gemegion fel paladdwyr a chwynladdwyr â phosibl wrth ddelio â phlâu yn diogelu'r amgylchedd yn ogystal â pheillwyr, gelynion naturiol plâu, rhywogaethau buddiol a phobl.
- Mae Defra wedi sefydlu cofrestr risgiau iechyd planhigion. Heddiw, mae’r gofrestr hon yn rhestru dros 1,000 o wahanol blâu a phathogenau sy'n fygythiad posibl i gnydau neu'r amgylchedd.
- Defnyddiwch yr adnoddau sydd ar gael ar y Porth Iechyd Planhigion a Chofrestr Risgiau Iechyd Planhigion y DU.
- Ystyriwch sut gallai plâu a chlefydau effeithio ar eich busnes. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael cyngor am fonitro, diagnosio a thrin plâu a chlefydau, a'ch bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth.
- Mae pasbort planhigion ar gyfer symud mewnol o fewn yr UE yn unig, fe'u cyflwynir gan weithredwyr awdurdodedig (rhoddir awdurdodiad gan yr awdurdod cymwys).
- Mae tystysgrif ffytoiechydol yn dystysgrif fyd-eang a ddefnyddir at ddibenion

bioddiogelwch, ac mae'n angenrheidiol ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion rheoledig sy’n cael eu mewnforio i'r DU o drydydd gwledydd neu sy’n cael eu hallforio o'r DU i drydydd gwledydd.